Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

30.01.25

GWYBODAETH BWYSIG I BAWB / IMPORTANT INFORMATION FOR EVERYONE

DARLLENWCH / PLEASE READ

Annwyl Rieni / Gofalwyr,
Dear Parents / Carers,

Hoffwn dynnu eich sylw at y canlynol:
I would like to draw your attention to the following:

Cynllun Tymor – Mae gwybodaeth am themau dosbarth eich plentyn ar gyfer y tymor ar gael i'w gweld ar wefan yr ysgol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am drefniadau dosbarth eich plentyn am y tymor.
Termly Plan – Information regarding your child's topics and themes for the term is available on the school website. It includes information about the arrangements for your child's class for the term.

Teganau/Eitemau personol o adref – Gofynnwn i chi gadw eitemau personol y plant adref. Ni ddylid dod ac eitemau megis teganau a peli i'r ysgol. Pan fydd angen i'r plant ddod ac unrhyw offer penodol i'r ysgol, fe'ch hysbysir gan yr athro/awes ddosbarth. **Nid oes caniatad i unrhyw blentyn i ddod a ffonau symudol i'r ysgol.**
Toys and other items from home – Please ensure that your child does not bring any personal items from home to school. Items such as toys and footballs should be kept safely at home. If any equipment or items are required, then you will be notified by your child's classteacher. **Mobile phones are also not permitted in school.**

Darllen – Gan fod darllen yn un o flaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn hon, a fyddech cystal â chymryd ychydig o funudau i gwblhau'r holiadur darllen drwy ddefnyddio'r linc isod. Bydd canlyniadau'r holiadur o ddefnydd i ni wrth i ni edrych ar ffyrdd y gallwn wella a datblygu.
Reading – As one of our school improvement priorities for this year is focusing on aspects of reading. Please take a few minutes to complete the questionnaire which can be accessed through the following link. The findings of such questionnaires are useful in helping us identify how we can further develop and improve.

https://forms.office.com/e/VPYgUTYFt9?origin=lprLink

Gemwaith - Ar gychwyn y flwyddyn fe'ch hysbyswyd ynglŷn â gwisgo gemwaith yn yr ysgol. Hoffwn eich hysbysu eto na ganiateir gwisgo gemwaith i'r ysgol, ac felly **dylid cadw eitemau fel breichledau, modrwyau, clustlysau ('caniateir 'studs' bychan yn unig) adref**
Jewellery - At the beginning of the school year information was shared regarding jewellery in school. In line with the school's policy, jewellery should not be worn in school. **Items such as bracelets, chains, rings, hanging earrings (small studs only acceptable) should be kept at home. Thank you.**

Rhestr apiau defnyddiol – Ynghlwm mae rhestr o apiau defnyddiol y gall eich plentyn ei defnyddio. Mae rhai yn addas i oed cyfnod sylfaen, ac eraill ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae hefyd apiau ar gyfer pob oedran yn ogystal â rhai cyffredinol a all hefyd fod o ddefnydd.
List of useful apps - Please see the list of useful apps which may be of use for you and your child. Some are suitable for foundation phase age, others for key stage 2. There are also apps for all ages and general apps which may be of use

Presenoldeb a Gwyliau - Hoffwn eich annog i feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu eich gwyliau ar gyfer y flwyddyn a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais am unrhyw wyliau sy'n golygu mynd a'r plentyn allan o'r ysgol yn ystod y tymor, drwy gwblhau ffurflen wyliau sydd ar gael o'r swyddfa neu ar y wefan.
Attendance and Holidays - I would like to remind you to think carefully before you arrange any holidays, and make every effort possible to avoid taking children out of school for holidays during the school term time. Any requests to take children out of school for holidays, will need to be done by completing a holiday form available from the school office or from the website.

Cinio ysgol –Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gael cinio ysgol ar unrhyw ddiwrnod, yna **MAE'N RHAID dewis cinio ysgol ymlaen llaw gan ddefnyddio ParentPay.**
Rhaid gwneud cyn 8am ar y bore neu gallwch archebu hyd at 6 wythnos ymlaen llaw. **Os nad yw rhieni/ofalwyr wedi archebu cinio ar gyfer eu plentyn, yna ni ellir sicrhau y bydd pryd poeth llawn ar gael i'r plentyn, ac mae'n bosib mai pryd mwy syml neu frechdanau yn unig a gynigir.**
Os nad ydych wedi derbyn manylion mewngofnodi eich plentyn ar gyfer ParentPay, cysylltwch â swyddfa'r ysgol trwy e-bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk
School Dinners –If you wish for your child to have school dinners on any day, then this **MUST BE ORDERED in advance through by accessing ParentPay. This must be done by the parent/carer through their ParentPay account before 8am on the morning** or you can book up to 6 weeks in advance. **If parents have not booked a lunch for their child, a full hot school meal cannot be guaranteed for the child and it may only be possible to provide a reduced and simpler meal or sandwich.**
If you have not received your child's login details for ParentPay, please contact the school office by e-mailing mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

Byddem yn gwerthfawrogi a byddai o gymorth mawr pe byddai rhieni/gofalwyr yn sicrhau fod y wybodaeth uchod yn cael ei gyfathrebu gydag unrhyw oedolion/berson sydd gyda chyfrifoldeb am ddod a'r plant i'r ysgol neu gasglu'r plant o'r ysgol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.
It will be much appreciated if all parents/carers ensure that any other adults who may be collecting the children from school are made aware of the above information. Once again, I would like to remind you to please contact your child's class teacher through their direct e-mail address if you have any questions about the activities and your child's work, or contact the office at mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk for general enquiries.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus
Thank you for your continued co-operation and support.

Yn ddiffuant / Yours sincerely,

Rhodri Jones
Pennaeth / Headteacher